AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cherry**

**Llandyrnog**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**11 Ionawr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2017.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth.Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cherry wedi'i leoli ar Highfield Park, yn agos i bentref Llandyrnog ar gyrion Dinbych. Mae'r darparwr, Mental Health (Highfield Park) Ltd, wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu gofal personol i ddau oedolyn sydd ag anableddau dysgu. Mae'r darparwr wedi penodi unigolyn i gyflawni rôl yr unigolyn cyfrifol, a'r rheolwr cofrestredig yw John Wynne Hughes.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Caiff pobl eu cefnogi gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n deall eu hanghenion. Gallant wneud pethau sydd o bwys iddynt ac maent yn ymddangos yn hapus. Mae'r staff yn cael eu hyfforddi a'u goruchwylio a chânt eu cefnogi gan ddirprwy reolwr sydd wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Byddai'r gwelliannau a amlinellir isod ac o fewn yr adroddiad yn helpu i gynyddu datblygiad unigol y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref.

**2. Gwelliannau**

Fel yr argymhellir yn ystod y broses gofrestru, mae cyfyngiadau ffenestri wedi'u gosod yn y swyddfa.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Mae adran pump yr adroddiad hwn yn amlinellu ein hargymhellion i wella'r gwasanaeth. Mae’r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Darparu amgylchedd llai cyfyngol
- Dylai canlyniadau ar gyfer pobl fod yn glir
- Gosod amcanion mesuradwy i staff
- Cyflwyno cynnig gweithredol o ran y Gymraeg

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae pobl yn gyfforddus â staff maent yn eu hadnabod yn dda, gwrandewir arnynt, a chaiff ymgeisiau i gyfathrebu eu gwerthfawrogi. Maent yn profi cynhesrwydd, ymlyniad ac ymdeimlad o berthyn a chânt eu hannog i gymryd rhan mewn amrediad o brofiadau. Gall pobl deimlo'n ddiogel.

### Ein canfyddiadau

Mae pobl yn cael eu cefnogi gan staff i fod yn rhan o weithgareddau cymunedol ac i gynnal arferion sy'n bwysig iddynt. Roedd y trefnwyr gweithgareddau ar gyfer y bobl yn dangos eu bod yn cymryd rhan mewn cymysgedd o weithgareddau cymdeithasol, hamdden a chorfforol. Mae canolfan weithgareddau ar Highfield Park y mae pobl yn ei defnyddio i gwrdd â phobl eraill. Mae gan bobl gyfleoedd i fynd allan am fwyd, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn mwynhau hyn. Mae nofio'n bwysig i un unigolyn a gall wneud hyn yn rheolaidd. Roedd pobl yn ymddangos yn hapus ac maent yn gallu gwneud pethau sydd o bwys iddynt.

Mae staff yn ofalgar ac maent yn cyfathrebu â phobl mewn ffyrdd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Gwelsom fod pobl yn derbyn sicrwydd ac esboniadau o'r hyn a oedd am ddigwydd yn ystod y dydd. Roedd proffiliau un dudalen ar gael a oedd yn esbonio i'r staff yr hyn a oedd yn bwysig i'r unigolyn a'r hyn yr oedd yn ei hoffi a'r hyn nad oedd yn ei hoffi. Roedd derbyn cefnogaeth gan staff cyfarwydd yn bwysig i un unigolyn, ac roedd rotâu staff yn dangos bod hyn ar gael iddo. Roedd staff yn siarad â phobl mewn modd parchus ac roedd yn amlwg o'r rhyngweithio rhyngddyn nhw a'r bobl eu bod yn adnabod yr unigolion yn dda. Mae gan bobl berthnasau cadarnhaol â'r staff.

Gall pobl fod yn sicr bod staff yn gwybod sut i'w cadw'n ddiogel rhag niwed. Mae pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol mewn perthynas â diogelu oedolion rhag camdriniaeth. Roeddent yn gallu esbonio sut y byddent yn adnabod hyn pe bai'n digwydd yn ogystal â'r camau i'w cymryd pe bai rhywun yn dweud wrthynt ynghylch digwyddiad neu pe baent yn dyst i unrhyw ddigwyddiadau o'r fath. Lle y gwnaed ceisiadau o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, gwnaed hyn yn unol â'r weithdrefn gywir. Byddai o fudd i'r staff pe baent yn gwybod sut mae'r trefniadau diogelu hyn yn berthnasol i unigolion – er enghraifft, pa gyfyngiadau sydd ar waith ar gyfer pa bobl a pham. Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau a oedd yn nodi mesurau ar waith i leihau'r risg heb gyfyngu'r unigolyn a allai fod mewn perygl o gael ei niweidio. Mae pobl yn rhydd rhag peryglon a niwed osgoadwy.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

Mae pobl yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac maent yn destun adolygiadau rheolaidd sy'n ystyried safbwyntiau perthnasau ac eraill fel sy'n briodol. Mae'r staff yn wybodus ynghylch anghenion pobl.

### Ein canfyddiadau

Mae teuluoedd a chynrychiolwyr yn cynorthwyo pobl i wneud eu dymuniadau a'u hanghenion yn hysbys. Gwelsom gofnodion o gyfarfod adolygu lle'r oedd teulu a gweithwyr proffesiynol wedi cyfrannu. Roedd cofnodion y gweithiwr allweddol ar gael, a oedd yn nodi'r hyn y gallai pobl fod am ei brofi a beth fyddai ei angen i wireddu hyn. Roedd pobl wedi derbyn gwasanaethau eirioli i helpu i'w cefnogi pan nad oedd teulu neu'r awdurdodau lleol ar gael. Yn y rhan fwyaf o achosion lle yr aseswyd pobl fel rhai nad oedd â'r gallu i wneud penderfyniadau penodol, gwelsom fod cyfarfodydd budd gorau wedi'u cynnal. Mae'n bwysig cynnwys pawb sy'n adnabod yr unigolyn ym mhob penderfyniad budd gorau i sicrhau bod hawliau'r unigolyn yn cael eu cynnal. Mae pobl yn cael eu cynnwys cymaint ag y bo modd wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae llawer o wybodaeth yn ymwneud ag anghenion unigolion a sut y gall y rhain gael eu diwallu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwelsom asesiadau a gwblhawyd gan yr awdurdod lleol a oedd yn ffurfio sylfaen y cynlluniau gofal. Roedd pasbortau iechyd a chyllid ar gael i helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi yn y meysydd hyn. Roed tystiolaeth fod adolygiadau wedi'u cwblhau a bod cynlluniau gweithredu wedi'u hysgrifennu ar ddiwedd y broses hon. Lle'r oedd canlyniadau ar gyfer pobl wedi'u cofnodi, nid oedd digon o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r rhain yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, "X i ddatblygu sgiliau bywyd bob dydd. Y camau i'w cymryd: annog ac ysgogi X." Nid oedd unrhyw fanylion yn y cynllun gweithredu na'r cynllun gofal a oedd yn nodi yr hyn yr oedd X eisoes yn gallu gwneud dros ei hun a'r math o anogaeth y byddai'n rhaid i'r staff ei darparu. Pe bai'r canlyniadau sydd wedi'u nodi, naill ai mewn cyfarfodydd gweithwyr allweddol neu mewn cyfarfodydd adolygu, wedi'u hysgrifennu mewn ffordd a oedd yn eu galluogi i gael eu mesur, byddai'n helpu'r bobl i wybod pa gynnydd yr oeddent yn ei wneud i gyrraedd eu nodau. Canfuom fod y ffeiliau gofal yn cynnwys cymaint o wybodaeth i'r staff y byddai'n anodd iddynt wybod yn union pa gymorth yr oedd angen iddynt ei roi i unrhyw unigolyn ac ym mha amgylchiadau. Mae proffiliau un dudalen wedi'u datblygu o'r bobl ac mae'r rhain yn rhoi amlinelliad i staff ynghylch sut i gefnogi pobl orau. Yn ogystal, roeddent yn nodi beth sy'n bwysig i'r unigolyn nawr ond dylent gynnwys beth sy'n bwysig i'r unigolyn yn y dyfodol hefyd. Mae pobl gan amlaf yn derbyn gofal yn y ffordd sydd orau ganddynt. Fodd bynnag, byddai dull gweithredol o gefnogi yn nodi'r hyn y gall pobl ei wneud drostynt eu hunain.

Gall pobl wneud eu hanghenion a'u dymuniadau'n hysbys. Roedd pasbortau cyfathrebu ar gael, sy'n helpu staff a phobl eraill i wybod sut i gyfathrebu orau ag unigolion. Roedd arsylwadau o ryngweithio rhwng staff a phobl sy'n byw yn y cartref yn dangos bod staff yn deall ac yn defnyddio'r dulliau priodol i gyfathrebu'n effeithiol ac i ddiwallu anghenion y bobl. Gwrandewir ar bobl a siaredir â nhw mewn ffordd maent yn ei deall ac mewn ffordd sy'n caniatáu iddyn nhw hefyd gael eu deall.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Gofelir am bobl mewn amgylchedd diogel a glân lle mae risgiau'n cael eu nodi a'u dileu cymaint ag sy'n bosibl. Mae gan bobl fynediad at ddodrefn, offer a deunyddiau sy'n cael eu cadw mewn cyflwr rhesymol. Gall rhai gwelliannau gael eu gwneud i wella ymdeimlad pobl o ymddiried ac i hyrwyddo annibyniaeth.

### Ein canfyddiadau

Mae amgylchedd y cartref yn weddol gyfyngedig oherwydd anghenion rhai o'r bobl sy'n byw yno. Roedd y drysau i'r gegin a'r golchdy dan glo ac nid oedd pobl yn cael mynediad at yr ystafelloedd hyn heb gymorth staff. Roedd prydau bwyd yn cael eu darparu i bobl trwy orddrws o'r gegin i'r ystafell fwyta. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal â'r dirprwy reolwr ynghylch sut y gellid cyflwyno dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn yn unol â'r asesiadau risg i bobl. Gwnaethom arsylwi nad yw cynllun y lolfa'n mabwysiadu ymdeimladau cartrefol a chyfforddus. Roedd y teledu wedi'i gau i mewn i'w amddiffyn rhag difrod ac roedd y seddi wedi'u gwthio yn erbyn y wal i roi mynediad at y bwrdd bwyd. Dylid ystyried gwneud hon yn ardal lle y gall pobl deimlo'n gyfforddus ac yn ymlaciedig. Mae cymryd risgiau cadarnhaol yn cael ei annog a'i reoli er mwyn caniatáu i bobl gael mynediad at a defnyddio cyfleusterau cymunedol, a dylid mabwysiadu'r un dull ar gyfer amgylchedd y cartref.

Mae archwiliadau amgylcheddol yn cael eu cwblhau i helpu i sicrhau iechyd a diogelwch y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref. Gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus. Mae angen adnewyddu'r ystafell ymolchi, a dywedodd y dirprwy reolwr wrthym fod hyn wedi'i nodi gan y darparwyr a'i fod wedi'i gynnwys yn y cynllun adnewyddu. Roedd cofnodion yn cadarnhau pryd y cafodd y gwaith cynnal a chadw ei nodi a phryd y cafodd y gwaith hwn ei gwblhau. Roedd archwiliadau misol o'r amgylchedd, pecynnau cymorth cyntaf a chyfarpar diogelu personol wedi'u hadolygu a chanfuwyd eu bod yn gyfredol. Gwnaethom nodi bod profion wedi’u cwblhau ar yr holl ddyfeisiau cludadwy yn 2016 ac nad oedd unrhyw broblemau wedi'u nodi. Roedd Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng ar waith ar gyfer y bobl sy'n byw yn y cartref. Roedd profion rheolaidd o system a chyfarpar y larymau tân wedi'u cwblhau ac roedd ymarferion tân wedi'u cynnal. Roedd cofnodion hyfforddiant yn cadarnhau bod yr holl aelodau o staff wedi derbyn yr hyfforddiant diogelwch tân diweddaraf. Mae pobl yn ddiogel rhag niwed osgoadwy o fewn eu hamgylchedd byw; fodd bynnag, dylid ystyried sut y gallai'r amgylchedd gael ei addasu er mwyn hyrwyddo hygyrchedd a chysur ymhellach.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac maent yn derbyn goruchwyliaeth a hyfforddiant rheolaidd. Mae'r dirprwy reolwr wedi bod yn ei swydd ers nifer o flynyddoedd ac mae wedi mabwysiadu diwylliant lle y mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### Ein canfyddiadau

Mae hyfforddiant ymsefydlu a hyfforddiant cyffredinol staff wedi rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol iddynt er mwyn cefnogi llesiant pobl mewn modd effeithiol. Dywedodd y staff a oedd wedi dechrau gweithio i Cherry yn ddiweddar eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ymsefydlu o bythefnos, a oedd yn cynnwys hyfforddiant mewn diogelu, gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a rheoli ymddygiad ymosodol gwirioneddol neu bosibl (MAPA). Yn ogystal, roeddent wedi bod yn treulio amser yn gweithio gydag aelodau mwy profiadol o staff (cysgodi). Dywedodd staff a oedd wedi bod yn gweithio i'r darparwr am sawl blwyddyn eu bod yn cael eu cefnogi a bod eu hyfforddiant a'u hamgylchiadau'n cael eu trafod wrth iddynt gael eu goruchwylio. Roedd ffeiliau staff yn dangos eu bod wedi derbyn goruchwyliaeth tua bob dau fis ac arfarniad bob blwyddyn. Argymhellwyd y dylid gosod amcanion CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol) ar ddiwedd y sesiynau hyn i helpu i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth unigolion i roi budd i'r bobl maent yn eu cefnogi. Pan oedd ymddygiadau heriol yn cael eu harddangos, dywedodd y staff wrthym, ac roedd cofnodion yn cadarnhau, eu bod nhw a'r unigolyn dan sylw yn cael y cyfle i drafod y sefyllfa ac i ddysgu o'r digwyddiad. Gwnaethom nodi bod y tîm staff yn weddol newydd i'w gilydd ond dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod problemau a bod gweithwyr allweddol wedi'u nodi i sicrhau bod anghenion a dymuniadau pobl yn cael eu trosglwyddo i bob aelod o staff. Gwelsom fod y ffeiliau gofal dyddiol yn ddogfennau wedi'u rhwymo, a oedd yn cynnwys y proffil un dudalen a’r cynllunydd gweithgareddau ar gyfer yr unigolyn, a oedd yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau, iechyd a llesiant pobl yn cael eu trosglwyddo. Mae'r bobl sy'n byw yn Cherry yn elwa ar dîm staff sy'n cyfathrebu â'i gilydd ac sy'n cael eu harwain a'u cefnogi'n dda.

Mae'r bobl sy'n byw yn Cherry a'r darpar breswylwyr yn gwybod pa gyfleusterau a chymorth sy'n cael eu cynnig yno. Roedd y datganiad o ddiben, sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarperir yn Cherry, yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r ddogfen yn nodi ei bod ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar gais. Argymhellir y dylid gwneud cynnig gweithredol o ran y Gymraeg, h.y. darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb fod angen i bobl ofyn amdano. Roedd gweithdrefn gwyno ddarluniadol yn cael ei harddangos, a oedd yn dangos i bobl pwy y gallent ddweud wrtho pe baent yn anhapus â'r gwasanaeth. Roedd dogfennau gofal yn dangos bod pobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth eiriolaeth annibynnol, a phan osodwyd cyfyngiadau ar eu rhyddid o dan y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, derbyniodd pobl fewnbwn gan gynrychiolydd person perthnasol cyflogedig. Mae system a rhwydwaith cefnogi ar waith i nodi a chodi pryderon.

## 5. Gwelliannau mae angen eu gwneud ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

- Er mwyn hyrwyddo amgylchedd lle y gall pobl deimlo'n gyfforddus ac fel eu bod yn cael eu hymddiried ynddynt, dylid ystyried amgylchedd llai cyfyngol.
- Er mwyn galluogi pobl i gyflawni eu hamcanion, dylid ystyried model cymorth gweithredol ar gyfer y gofal.
- Er mwyn helpu i hyrwyddo datblygiad staff, dylid gosod amcanion mesuradwy yn ystod goruchwylio ac arfarnu.
- Er mwyn cefnogi'r bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, rydym yn argymell y dylai darparwr y gwasanaeth ystyried 'Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol' Llywodraeth Cymru.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn oedd hwn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom gynnal ymweliad dirybudd ar 5 Rhagfyr 2017 rhwng 9.25am a 4.45pm.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol i bennu ein canfyddiadau:

Gwnaethom siarad â thri aelod o staff, y dirprwy reolwr a'r rheolwr cofrestredig.

Gwnaethom adolygu'r cofnodion canlynol:

- Dwy ffeil ofal, gan gynnwys cynlluniau gofal ac asesiadau risg
- Cynllunwyr gweithgareddau
- Cofnodion dyddiol
- Ffurflenni digwyddiadau
- Dwy ffeil staff, gan gynnwys manylion ynghylch recriwtio a goruchwylio
- Y matrics hyfforddi
- Cofnodion cynnal a chadw
- Diogelwch tân
- Archwiliadau misol ac wythnosol

Aethom ar daith o amgylch ardaloedd cymunedol ac unigol y cartref.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Cartref gofal i oedolion iau** |
| **Person cofrestredig** | **Mental Health Care (Highfield Park) Ltd** |
| **Rheolwr cofrestredig** | **John Hughes** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **Dau** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC** | **Roedd hwn yn arolygiad ôl-gofrestru** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **5 Rhagfyr 2017** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |